PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 6 MEHEFIN 2018

Present: Councillor McGarry(Chairperson)
Councillors Ahmed, Carter, Ebrahim, Goddard, Kelloway a/ac Lent

1 : PENODI CADEIRYDD AC AELODAU'R PWYLLGOR

Penodwyd y Cynghorydd Mary McGarry yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn a'r canlynol yn aelodau'r pwyllgor yng nghyfarfod y Cyngor ar 24 Mai 2018:

Y Cynghorwyr Ali Ahmed, Joe Carter, Saeed Ebrahim, Susan Goddard, Shaun Jenkins, Kelloway, Lent a Molik

2 : CYLCH GORCHWYL

Craffu ar, mesur a hybu gwelliant ym mherfformiad y Cyngor wrth ddarparu gwasanaethau a chydymffurfio â pholisïau, nodau ac amcanion y Cyngor ym maes gwasanaethau cymunedol ac oedolion, gan gynnwys:

- Tai Cyhoeddus a Phreifat
- Grant Cyfleusterau i'r Anabl
- Diogelwch Cymunedol
- Adnewyddu Cymdogaethau a Chymunedau Nesaf
- Cyngor a Budd-daliadau
- Amddiffyn Defnyddwyr
- Strategaeth Pobl Hŷn
- Gofal Cymdeithasol i Oedolion
- Gwasanaethau Gofal Cymunedol
- Iechyd Meddwl ac Anableddau Corfforol
- Strategaeth Comisiynu
- Partneriaeth Iechyd

Asesu effaith ein partneriaethau â sefydliadau allanol, adnoddau a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, gwasanaethau llywodraeth leol ar y cyd, Cyrff Cyhoeddus dan Nawdd Llywodraeth Cymru a chyrff lled-adrannol anllywodraethol a gwasanaethau iechyd ar effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor.

Adrodd y canfyddiadau yn y cyfarfod Cabinet neu Gyngor perthnasol a rhoi argymhellion ynghylch mesurau a all wella perfformiad y Cyngor a'i wasanaethau yn y maes.

Gweithredu fel Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn y Cyngor yn ôl Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 ac unrhyw ailddeddfiad neu ddiwygiad ohoni; ac fel dirprwy i'r Cyngor, arfer ei bwerau a'i swyddogaethau a ganiateir dan y Ddeddf.

3 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Shaun Jenkins.

4 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

5 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mai yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

6 : STRATEGAETH TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL RHANBARTHOL CAERDYDD A BRO MORGANNWG 2018 - 2023

Croesawyd y Cynghorydd Susan Elsmore (Aelod Cabinet – Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles), Sarah McGill (Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Bobl a Chymunedau), Jane Thomas (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Tai a Chymunedau) a Natalie Southgate (Rheolwr Polisi a Datblygu, Tai a Chymunedau) i'r cyfarfod.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod yr eitem hon i gael ei phenderfynu cyn craffu cyn iddi gael ei hystyried yng nghyfarfod y Cabinet ar 14 Mehefin.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Elsmore i wneud datganiad a chanmolodd gwaith wedi'i wneud gan swyddogion, ac yn enwedig Natalie Southgate a Nicola Evans, gan gredu ei bod un o'r strategaethau gorau ei bod wedi'i gweld o ran ei phortffolio. Cefnogodd y strategaeth nid yn unig y gofynion wedi'u hamlygu gan Lywodraeth Cymru a'r Ddeddf, ond hefyd yn nodi 5 nod lefel uchel pellach; Paratoi, Canlyn, Atal, Amddiffyn a Chefnogi.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar y Strategaeth gan Natalie Southgate ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at y rhwystredigaeth y mae'n rhaid bod swyddogion yr heddlu'n ei theimlo pan, er eu bod yn mynd i ddigwyddiad, wrthoda dioddefwr wneud cwyn, a nodon nhw er yr eir i'r afael â hyn yn y strategaeth, gall yr heddlu hefyd erlyn heb ddioddefwr.

- Nododd yr Aelodau y cyfeiriad at gomisiynu gwasanaeth arbennig i ddioddefwyr gwrywaidd a mynegon nhw bryder am ddioddefwyr yn y gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Derbyniwyd bod dim digon o ddigwyddiadau o'r fath yn fwy na thebyg yn cael eu hadrodd, ond y edrychir ar y mater hwn ar hyn o bryd yn rhan o

waith datblygu parhaol.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at yr ymrwymiadau wedi'u hamlinellu yn y nod Atal mewn perthynas ag ysgolion/addysg a dywedwyd wrthynt na roddir unrhyw arian ychwanegol. Bydd y fframwaith hyfforddiant cenedlaethol yn helpu i gynnig hyfforddiant i staff i gael mwy o sgiliau i ryngweithio â dioddefwyr, eu cyfeirio a'u cefnogi.

- Cydnabu'r aelodau'r angen am gydweithredu gyda System y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llysoedd, ond er mwy i hynny fod o fudd, mae angen cryfhau cysylltiadau.

- Gofynnodd yr Aelodau am y rhesymeg dros Gaerdydd a Bro Morgannwg yn gweithredu fel rhanbarth; amlinellodd swyddogion y patrymau teithio i'r gwaith arferol, ymfudiadau mynediad gwasanaeth ar gyfer trigolion; bodolaeth nifer o wasanaethau a hefyd ôl-troed y bwrdd iechyd a rennir. Dywedwyd wrth yr Aelodau, er bod y Strategaeth yn berthnasol i Gaerdydd a Bro Morgannwg yn bennaf, nad yw'n eithrio gweithio ehangach ledled y rhanbarth.

  Mewn perthynas â chyflawni'r Strategaeth, dywedwyd wrth yr Aelodau nad oes unrhyw gost go iawn ar hyn o bryd ond rhagwelwyd y caiff costau hyfforddiant eu rhannu'n gyfartal. Mae grŵp cynghori'n asesu anghenion hyfforddiant wrth fynd ymlaen. Bydd costau hefyd yn dod o lifoedd ariannu cyfredol, ac roedd y Strategaeth wedi cyflwyno cyfleoedd i ystyried integreiddio ac effeithlonrwydd.

- Gofynnodd yr Aelodau a ymgynghorwyd ag arweinwyr crefyddol a dywedwyd wrthynt er cydnabuwyd effaith crefydd nad ydynt wedi'u targedu'n benodol. Roeddent yn ymwybodol fodd bynnag fod BAWSO yn cydgysylltu â dioddefwyr pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a'r arweinwyr diwylliannol amrywiol.

  Dywedodd yr Aelodau eu bod am sicrhau bod ymwybyddiaeth yn cael ei chodi ac y gellir cael gwybodaeth ym mhob rhan o'r ddinas, er enghraifft yn yr hybiau, ar fysus ac hysbysfyrddau

- Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai Cynllun Gweithredu ynghlwm wrth y Strategaeth, y bydd angen cytuno arno hefyd. Rhoddwyd gwybod i Lywodraeth Cymru am yr oedi, dylai'r Cynllun Gweithredu fod wedi'i gyflwyno ym mis Mai 2018.

CYTUNWYD: Bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

7 : GOFALWYR – ASESIADAU AC YMGYSYLLTU

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Susan Elsmore (Aelod Cabinet - Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant), Sarah McGill (Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Bobl a Chymunedau), a Sue Schelewa (Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Lleol) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Elsmore i wneud datganiad a dywedodd ei bod yn falch gyda'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran asesu gofalwyr ac amlygodd y rôl bwysig mae swyddogion yn ei chwarae.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad a amlinellodd y sefyllfa gyfredol; darpariaeth gyfredol a datblygu i'r dyfodol, gan gynnwys:-

- Mae Carer's Trust SE Wales (BIP Caerdydd a'r Fro) wedi'u comisiynu i ymgynghori ac ymgysylltu â gofalwyr, gan weithio ar wobr achredu, gan gynnwys gofalwyr ifanc mewn ysgolion;

- Nod y tîm cymorth i Ofalwyr yw bod yn rhan o ddigwyddiadau rhwydweithio i geisio cyrraedd gofalwyr cyfredol a newydd, gan gynnwys Ffair Iechyd a Llesiant y Cyngor a lansio Dinas sy'n Deall Demensia; a

- Mae digwyddiadau amrywiol yn cael eu cynnal yn ystod Wythnos y Gofalwyr; stondin ar y cyd â CIP Caerdydd a'r Fro yng nghyntedd Ysbyty Athrofaol Cymru; sesiwn galw heibio yng Nghaffi Hyb Trelái; sesiwn cyngor a gwybodaeth yn Hyb Llanedern; a boreau coffi cymunedol Llanisien a'r Tyllgoed i fynd iddynt.

Cafodd Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, gofyn am eglurhad pellach neu wneud sylwadau. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodai am wybodaeth am nifer y gofalwyr sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol a dywedwyd wrthynt y credir bod 800 neu 900 yn derbyn Taliadau Uniongyrchol, ond, nad oedd modd cadarnhau nifer y gofalwyr.

- Dywedwyd wrth yr Aelodau, allan o 770 o asesiadau, y adnabyddir tua 25% o'r gofalwyr. Ceisiodd yr Aelodau eglurhad am gyfran y 770 oedd yn derbyn gwasanaethau aros trwy'r nos. Dywedodd swyddogion nad ydynt yn gallu rhoi'r wybodaeth honno, ond rhagwelon nhw mai yn y cannoedd isel allan o'r cyfanswm o 3300 (o'r gofalwyr y mae'r Gwasanaethau Oedolion yn gwybod amdanynt yn 2017-18) oedd nifer y rheiny sy'n derbyn gwasanaeth aros trwy'r nos.

CYTUNWYD: Bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

8 : ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017/18

Dywedodd y Swyddog Craffu wrth yr Aelodau y cafodd yr Adroddiad Blynyddol Drafft ei gyflwyno i'w ystyried, a amlinellodd y gwaith wedi'i wneud gan y pwyllgor rhwng mis Mehefin a mis Mai.

CYTUNWYD: cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol Drafft i'w gyflwyno gerbron y Cyngor.

9 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion yw dydd Merched 4 Mehefin 2018 am 4.30pm.

The meeting terminated at 6.15 pm